

Croeso!

Erbyn hyn mae'r tymor rasio harnais yn ei anterth gyda dau gyfarfod rasys CEREDROTIAN ar y gorwel, yn cynnwys Gŵyl fawr Tregaron mae digono rasys i blesio pawb yng Ngheredigion

Beth sy' wedi bod yn digwydd?

Yn sicr roedd rasys Tanycastell yn llwyddiant ysgubol, gyda 18 o rasys i ddi-ddori'r dorf niferus a brwdfrydig. Yr Americanais, Baby Rosa yn nwylo Rhys Evans oedd enillydd ras Aelodau Clwb Cardigan



Bay, buddugolaeth gyntaf iddi ar y borfa. Ac os ma Baby Rosa oedd tywysoges Cardigan Bay, mae'n sicr taw Meadowbranch Josh a Trefor Morgans oedd Tywysog a Brenin Tanycastell wrth iddynt ennill y brif ras, Ffeinal Coron y Castell. Ac yn ôl bob tebyg, mi roedd teulu'r Morgans yn dathlu hyd oriau man y bore. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac mae'r canlyniadau yn llawn i'w gweld ar wefan CEREDROTIAN.

Mi fydd rhai ohonoch wedi sylwi ar y criw yn ffilmio yn Nhandycastell, ac mi fydd rasys Tanycastell yn ymddangos ar raglen y BBC 'A Summer in Wales' a fydd yn cael ei darlledu yn ystod yr hydref. Mi gewch chi fwy o fanylion yn nes i'r amser.

Mae pethau yn dechrau twymo ym Mhencampwriaethau CEREDROTIAN. Huw Evans sy'n arwain tabl y perchnogion tra bod seren ei stabl Fool Around ar frig tabl y ceffylau. Gyda diwrnod llwyddiannus yn Nhandycastell mae Jamie Davies yn arwain tabl y gyrwyr, tra bod hi'n hynod agos rhwng Rhys Evans a Mike Evans am bencampwriaeth yr hyfforddwyr. Mi fydd y gystadleuaeth yn Nhregaron yn ffyrnig ac mi fydd angen i rain i gyd fod ar ei gorau i wrthsefyll y gystadleuaeth o bant. Tablau'r pencampwriaethau ar y wefan.



Yn ôl y disgwyl mai pob dim nawr yn wedi anelu i wyl Tregaron Awst 24,25 & 26 ac Y lle i fod yn ystod penwythnos Gŵyl y Banc. Gyda 3 niwrnod llawn rasys cystadleuol yn cynnwys y prif rasys, megis Rasys Y Ddraig i'r ceffylau 2 a 3oed; Y Ffilltir Drydanol; Ras Aelodau Clwb Cardigan Bay a'r 3 ffeinal - Cors Caron, Ystrad Fflur a Chlasur Cymru mae yna wledd o adloniant i chi.

Eleni mi fydd Tregaron yn croesawu sylwebydd o Awstralia, Matt Hill. Mae Matt wedi bod yn brysur yn darlledu a sylwebu o'r Olympics ar ran orsaf radio 2GB yn Awstralia. A nawr yn edrych 'mlaen am gael y cyfle i sylwebu yn rasys Tregaron gyda'r sylwebyddion arferol Darren Owen a Gary Capewell.

Clwb Rasio Harnais Llamed



Ar ôl bwrlwm penwythnos gŵyl y banc, ymlaen i rasys Llamed dydd Sadwrn 1 Medi. Chwaneg o newid eleni wrth i'r trac cael ei ail-leoli i safle newydd ar Fferm Pentre, Llanfair Clydogau. Pinacl y dydd fydd y Ffeinal, wedi noddi gan Lloyds Chip Shop, Llamed. Llamed fydd cyfarfod olaf y tymor i GEREDROTIAN - felly digon o gyffro a phawb am gael gafaél yn y pwyntiau diwethaf i gloi pencampwriaethau CEREDROTIAN 2012.



Nol yn 2007 fe drefnodd Bridfa Meadowbranch yn Iwerddon ddiwrnod agored i arddangos y ceffylau ifanc oedd gan y fridfa.

Ddim eisiau colli cyfle am benwythnos bant, fe aeth criw o gymeriadau Ceredigion i fusnesa a blasu bach o gynnyrch Gwyddelig. Yn eu plith oedd Trefor Morgans, un sydd bob amser yn mwynhau 'trip', ond y tro hyn roedd Trefor am wneud bach o fusnes hefyd. Ac wrth wyllo beth oedd gan Meadowbranch i gynnig, fe ddaliodd un y llygad, Meadowbranch Josh. Yn sicr, roedd magwraeth Josh heb ei ail - allan o frenhines go iawn 'Churchill Queen'. Roedd hon eisoes wedi magu enillydd Clasur Cymru, Meadowbranch Frank a'r gaseg wych Meadowbranch Gigalo. Fe seliwyd y ddel mewn tafarn bach yn Old Town ac am £10,000 fe gafodd Trefor ei geffyl a dechrau ar ei freuddwyd o gyrraedd (ac ennill) y rasys mawr.

Yn ystod ei rasys mae Josh wedi dangos digon o ddawn a chyflymdra ond ddim bob amser y ceffyl fwyaf hawdd. Ar yr adegau mae wedi bod yn drydanol fel gwnaeth wrth ennill yn 2.00.9 yn Efrog llynedd. Ond wedyn yn gwneud camgymeriadau bach a thorri ei gam. Ac er ar adegau roedd ei rasys a'i berfformiadau yn rhwystredig roedd teulu'r Morgans yn ymddiried yn Josh ac argyhoeddedig bod y gallu gan Josh i ennill ras fawr.

Wrth droedio i'r trac yn Nghanystell, fe oedd y ffeifryn - roedd pawb yn gwybod fod y gallu yna, ond roedd rhaid iddo gadw'i ben, canolbwyntio a chadw i gam. Roedd 'na cheffylau da arall yn y rhagras, gan gynnwys Camden Casanova. Er braidd yn sigledig o amgylch y tro cyntaf, fe setlodd yn dda a phan ofynnwyd iddo gamu allan, fe wnaeth yn ddiraffferth ac yn hyderus ac yn creu tipyn o argraff wrth groesi'r llinell 9 hyd o flaen y gweddill.

Fawr o syndod felly, wrth iddo ennill mewn amser cyflym ac mor hawdd, fe aeth allan fel y ffeifryn i'r ffeinal. Yn y ffeinal roedd Josh yn hebrwng y gât 10 llath, gyda Camden Casanova ar ei ochr allan, a 2 geffyl y tu blaen iddynt. Roedd yna dipyn o gyflymdra wrth ddechrau'r ras ond fe arosod Josh yn amyneddgar hyd y tro olaf a bwrw'r blaen wrth droi am adre ac unwaith eto yn ennill yn hawdd ac yn hyderus yn nwylo Patrick Morris gan sicrhau bod y £1000 yn aros yng Ngheredigion.

Wrth gael ei gyfworld ar ôl y ras, eglurodd ei yrrwr Patrick Morris bod 'na thipyn o ymdrech wedi ei neud i baratoi'r ceffyl am y ras " mi roedd wedi bod yn gwneud cam gymeriadau gwirion yn ddiweddar, roeddwn yn gwybod fod rhaid iddo osgoi torri, roedd y gallu a'r cyflymdra ganddo i ennill y ras 'ma. Yn ystod yr wythnos, rydym wedi newid bach o'i harnais, tynnu ei 'hopples' i mewn ac agor ei ffrwyn allan"



ac wrth drafod y ras, ychwanegodd Patrick " Wrth hebrwng y gât 10 llath a bod ar yr ochr fewn, mi roeddwn yn poeni braidd fod 'na siawns i mi gael fy nhai i mewn. Ond yn ffodus roedd 'na ddigon o gyflymdra yn y blaen. Fe ddangosodd Josh heddiw pa mor dda ma' fe."

A nawr mi fydd enillydd Tanycastell yn troi ei olygon tuag at Dregaron. Symud lan i radd 6 ac yn gobeithio cynnal ei lwyddiant yn Ngeredigion cyn daw tymor 2012 i ben. Llongyfarchiadau i Josh a'i gysylltiadau a phob lwc yn Nhregaron.

Mae'n anghyffredin i chi gweld tad, a'i fab a'i ferch yn gyrru yn yr un cyfarfod, mae hyd yn oed mwy anghyffredin i'r tri ennill ras ar yr un dydd. Ond dyna yn union beth ddigwyddodd yn rasys Tanycastell ac yn brawf fod rasio harnais yn wirioneddol yng ngwaed y teulu Evans. Ac os nad oedd yn ddigon bod y tri gyrrwr yn perthyn, mi roedd tri o'r ceffylau hefyd yn perthyn ac wedi ei magu gan yr Evans'. Mae Fool Around a Rush Around allan o Merry Go Round, a Billy Elliot allan o Carousel, a hithau hefyd yn ferch i Merry Go Round.

Erbyn hyn mae yna 2 flynedd ers i Huw drosglwyddo'r awenau gyrru i'w fab Rhys. Ac yn yr amser 'na rydym wedi hen gyfarwyddo a gweld Rhys yng nghylch yr enillwyr - a dyna le oedd e' unwaith eto yn Tanycastell, gyda 2 o'r ceffylau mae'n hyfforddi Fool Around, Baby Rosa a Ffairrhoshillbilly i Mike Evans.

Ond fel hyffroddwr mae rhaid gwybod pa rasys sydd yn rhoi'r cyfle gorau i'r ceffylau, ac mi welodd Rhys gyfle i roi Billy Elliot yn ras i yrwyr dros 50, a Huw yn gyrru am y tro cyntaf ers 2 flynedd. Cael mantais o fod yn cychwyn ar y gât, ac er bod Billy Elliot yn cymharol ddibrofiad, mi roedd ei lwyddiant diweddar yn Musselburgh wedi creu argraff ac fe oedd yn ffefryn a thipyn o bwysau ar yr hen ysgwyddau. Ond mae gyrru fel reidio beic, chi byth yn anghofio sut i wneud e, ac mi roedd yr atyniad i gylch yr enillwyr mor gryf ag erioed a gyda blynyddoedd o brofiad fe ddaeth y fuddugoliaeth i Huw.

Ar y llaw arall, megis dechrau mae ei ferch Annwen, ac yn gymharol ddibrofiad wrth iddi ddechrau gyrru llynedd ac ond wedi cael llon llaw o rasys hyd yn hyn. A werth nodi ei bod wedi bod yn y gwobrau bron bod bob tro.

Wedi astudio'r cerdyn rasys, mi roedd Annwen yn meddwl falle fod siawns go lew fan hyn, a chyfle i ennill ei ras gyntaf. Wedi tynnu rhif 2 ar y gât fe ymrwymodd ei hun o'r cychwyn cyntaf a gyrru Rush Around allan o'r gât yn hyderus i arwain y ras o'r cychwyn. Gyda bloedd fach fan hyn a fan draw, fe ddaliodd 'mlaen i'w mantais ac arwain o'r dechrau i'r diwedd a sicrhau ei buddugoliaeth gyntaf erioed.

Diwrnod i'w gofio I Annwen, ennill am y tro cyntaf a hynny ar drac lleol "Grêt i gael y fuddugoliaeth gyntaf. Rwy mor hapus fod Rush Around wedi rhedeg mor dda a medru dangos i Rhys nad fe yw'r unig un y teulu sy'n medru gyrru enillydd. Roedd yn neis gweld dad nol yn gart. Ddim yn siŵr os oedd angen i Rhys cael enillydd arall er mwyn achub y blaen arnom ni, ond rwy'n hapus bod Rosa wedi rhedeg yn dda.

Yn wahanol i'r arfer fe gafodd Rhys gyfle i gefnogi ei deulu, ac yn amlwg yn falch o'i chwaer fach "Roedd yn grêt gweld Annwen yn ennill, ac mi fydd yn siŵr o roi tipyn o hyder iddi."

Ac i Huw, mi roedd yn amlwg yn ddiwrnod arbennig "Rwy falch iawn o'r ddau ohonynt, ond braf yw nodi bod dad yn dal yn medru dangos iddynt shwt ma' neud yn hytrach na gorfod dweud wrthynt drwy'r amser! Efallai taw cyd-ddigwyddiad fydd mod i yn cael fy enillydd diwethaf fel gyrrwr ar yr un diwrnod ma' Annwen yn cael ei chyntaf, ond wedyn falle fyddai'n well aros nes bod Kirstin yn cyrraedd cylch yr enillwyr.

A dyna chi, dyma le glywoch chi gyntaf ... mae 'na Evans bach arall yn paratoi i droedio'r trac!



Rhys



Huw



Annwen



Tra roedd rhan helaeth o gefnogwyr a chystadleuwyr rasio harnais yng Nghymru yn mwynhau'r haul yn Nhany Castell, fe fentrodd rhai dros glawdd Offa ac am y gogledd i drac rasio harnais Efrog am y Breeders Crown 2012. Wedi dioddef glaw trwm dros nos ac yn ystod y bore mi roedd y trac yn wlyb iawn ac fel canlyniad ddim yn caniatáu i'r ceffylau weithio allan ac yn fwy anffodus heb y car cychwyn.

Roedd nifer y ceffylau wedi enwebu yn siomedig o fach, ac fel canlyniad roedd 'na newid i'r drefn arferol, dim rhagrasy, dim ond un ras/ffeinal i bob adran.

EBOLESAU 2 FLWYDD

Gwelwyd 2 eboles o Gymru, **Camden Kinki** (Yankee Lariat/Pens Kinki Touch), eboles a magwraeth braf o eiddo Helen Langford o Dde Cymru a **Runaway Girl** (Southwest Art/Duggans Trickster) eboles wedi ei hyfforddi a'i gyrru gan Marc Jones o Bontsenni. Fe ymdopodd y 2 yn dda gyda'r oedi hir ar y trac cyn dechrau'r ras. Wrth i'r ras fynd yn ei flaen, fe orfodwyd i Runaway Girl rhedeg yn llydan ac er yn edrych braidd yn ddibrofiad ar adegau fe ddaliodd lan i'w gwaith yn arbennig a gorffen yn 3ydd y tu ôl i Camden Kinki a ddaeth drwyddo i ennill yn hawdd iawn, 4 hyd o flaen Ladyford Indiana mewn amser o 2.09.5.

EBOLION 2 FLWYDD

Sawl un yn y ras a chysylltiadau Cymraeg, yn cynnwys **Mochart** (Arts Conquest/Mocha Hanover) a **Inferno** (Kikikolt/On Fire), un o gnwd cyntaf Kikikolt ac wedi ei fagu yng Ngheredigion. Yn anffodus dim lwc i'r un o'r 2. Ond gwell lwc i ebol David Corbett, **Rhyds Solution** (Hasty Hall / CPs Village Jigsaw) i ennill y 3ydd safle er waethaf safle anffafriol ar y cychwyn ac amodau

anodd iawn. Hefyd yn y ras oedd **Million Dollar Man** (Roddy Hanover / Orders), dim cysylltuad a Chymru heblaw ein bod wedi cael y pleser o'i weld yn ennill yn Nhair Gwaith yr wythnos gynt ac yn answyddogol creu record Brydeinig newydd i geffylau 2 flwydd (2.00.7), ond yn siomedig yn Efrog. Gwelwyd diwedd glo agos a gyrru called iawn i'r ras gyda Ayr Majesty (Daylon Alert/Ayr Queen) jyst yn cael y gorau o **Frisco Fiddler** (Arts Conquest/Lifeisjustadream) mewn amser o 2.07.3.

EBOLESAU 4 BLWYDD OED

Dim ond 5 eboles yn y ras ac yn cynnwys **Brwyins Jolene** (Gothic Dream/Brywins Jody) sy'n enw cyfarwydd yn W&WHRA, a ebloes Roy Sheedy **Wellfield Elvira** (Village Connection/Lucky Lilly), sydd yn gymharol ddibrofiad ond gwnaeth argraff dda yn Nhair Gwaith yn ddiweddar. Yn anffodus i'r ebolesau, fe ddaeth y glaw eto - ond ni wnaeth diferyn o wahaniaeth i **Rhyds Topaz** (Hasty Hall/CPR) wrth iddi gamu ymlaen a naddu i ffordd drwyddo ac ennill yn hawdd yn 2.05.4. Coron arall i dywysoges y Breeders Crown yn 2010 a 2011, tipyn o gamp.

EBOLION 4 OED

Siomedig iawn i weld dim ond 4 ceffyl yn cychwyn - ac mewn ras a chyn lleied, roedd ceffyl John Duggan **Duggans Pride** (Hasty Hall/January Spur) yn nhwylo Rocker Laidler yn hapus i eistedd yn gysurus wrth gwt y ras, nes dewis neud i symudiad ac ennill yn hamddenol o 5 hyd wrth **Wellfield Earl** (Village Connection/Wellfield Ellie), ag yntau 9 hyd ymlaen **Two Score** (JWs Best / Sunnyside Artist).

RAS CEFFYLAU HYN

Cyflwyniad newydd i gyfres y Breeders Crown oedd y ras yma. Ras i geffylau 5 oed neu hyn a oedd yn rhan o'r Breeders Crown yn y blynyddoedd blaenorol. Unwaith eto dim ond 5 daeth rhagddo i redeg ac yn cynnwys tri o gewri 'Y Byddin Rhyds'. Methodd **American Gigolo** (Village Jasper/American Beauty) arwain o'r safle cychwyn delfrydol, ac yn caniatáu i **Red Casino** (Hasty Hall/Out Of cash) i arwain i fewn i'r

tro cyntaf. A methiant oedd unrhyw ymgais wrth unrhyw un o'r lleill i'w ddal. Buddugoliaeth gyntaf i Red Casino ers 3 mlynedd.

EBOLESAU 3 OED

Ras yn cynnwys ebolesau o fri. Yn anffodus, dim llawer o hwyl i un o geffylau cyfarwydd W&WHRA, **Red Treasure** (The Firepan/Out of Cash), ennilydd BC 2011 on heb unrhyw lwc eleni. Ond mi gafwyd perfformiad da, uwaith eto o dan amodau anodd gan eboles David Corbett, **Rhyds Jigsaw** (Hasty Hall/CPs Village Jigsaw) i ennill y 3ydd safle. Ond seren y ras oedd **Camden Carley** (Yankee Lariat/Jazzy Empress), buddugoliaeth cyfforddus o 4 hyd, yn 2.6.5. Roedd 'na dipyn o gyffro wrth i Vicky Gill (ei gyrrwr arferol ond yn feichiog) redeg i gyfarch ei eboles nol i gylch yr enillwyr ac yn bur debyg yn rhywbeth i neud ar ffaith fod Vicky wedi rhoi genedigaeth i Georgia ond oriau yn ddiweddarach. Llongyfarchiadau mawr i Johnny a Vicky!

EBOLION 3 OED

Gyda rhai o ebolion gorau yn wlad y tu ôl i'r gât, mi roedd hon am fod yn dipyn o ras. Unwaith eto, oherwydd absenoldeb y car cychwyn - mi roedd y frwydr 'mlaen ymhell cyn y cychwyn. Wedi cael mantais rhif 1 ar y gât, bron i'r ceffyl ar enw mwya' pwrpasol, **Cloud Burst** (Jimmy Long/Lyons Camp Best) i'w gwneud yn 2 fuddugoliaeth 'Breeders Crown' yn olynol. Cafwyd brwydr ffyrnig i'r llinell a **Merrington Missile** (Pierce Seelster/Merrington Heights) yn ennill o drwch blewyn, Cloud Burst yn ail. Trydydd i enillydd ras 3oed Appleby, **Kestrels Dot Sammy** (Hasty Hall/Ketrels Dot Sal) ac fel canlyniad nawr yn ffarwelio ar ei gynnig am ennill yn Goron Driphlyg.

Gweler canlyniadau i gyd

<http://www.bhrc.org.uk/raceresults.php?Track=York&TrackID=YK&RaceDate=2012-08-05>

Mi fydd llawer iawn o'r ceffylau 'ma i weld unwaith eto yng Ngŵyl Rasio Harnais Tregaron ar y 24, 25 & 26 Awst. Mae'n sicr fydd ma dipyn o gyffro dydd Gwener yn rasys 2 flwydd, Y Ddraig Iau Gymreig ar Ddraigess Iau Cymreig ac yna dydd Sadwrn, i'r ceffylau 3 oed, yn Y Ddraig Fach Gymreig ar Ddraiges Fach Gymreig. Rhestr o'r ceffylau cymwys i weld <http://ceredrotian.com/en/the-paddock/nominations/>

- Llongyfarchiadau i gysylltiadau Mahogany Fame ar ennill Ffeinal Yr Hurricane Pace yn Musselburgh. Ceffyl 5 oed, allan o Mahogany Shark wrth Hasty Hall ac yn hanner brawd I Mahogany Dream a Mahogany Gem, wedi ei fagu gan Henry & Heulwen Bulman, Mahogany Stables, Tregaron.
- Fe ddawnsiodd Billy Elliot (Rhys Evans) hefyd i fuddugoliaeth yn Musselburgh, gan ennill ei ras forwyniol yn yr ail ras o'i yrfa. Wedi ei fagu gan y teulu, ebol 3 oed with Sable Matters a'r ebol cyntaf allan o Carousel, hithau wedi ennill yn Musselburgh ac yn chwaer i'r bythgofiadwy Scoot Around
- Cafwyd y ras diweddar o gyfres Cesig Magu'r Dyfodol STAGBI ei chynnal yn Mhortmanock, Iwerddon. Ras gystadleuol gyda 8 caseg yn y ras, ond y gaseg o Gymru ddangosodd ei dawn unwaith eto ac ennill mewn amser o 2.00.2. A hwn yn rhoi'r 9fed buddugoliaeth o'i gyrfa iddi. Caseg 5 oed with Daylon Alert allan o Happy Cricket o eiddo Glenys Jones, Llanllwni, wedi ei hyfforddi a gyrru gan Mike Evans.
- Hefyd yn uchafbwynt y cyfarfod ym Mhortmanock oedd Chinatown Kolt, ebol 2 flwydd Glenys Jones. Wrth gynnal record y trac i geffylau 2 flwydd, fe oedd y ffefryn i'r Ladbrokes Vincent Delaney Memorial 2yo Race, a werth €7000 i'r enillydd. Wedi gornest digon ffyrnig 'da ceffyl o'r un stabl, Showtime Doll, fe orffennodd Chinatown Kolt yn ail, wrth I Alan Haythornthwaite a Frisco Fiddler (Arts Conquest/Lifeisjustadream) gwneud symudiad hwyr i guro'r 2 o drwch blewyn ar y llinell.

Cyllidwyd y prosiect hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig; Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government